



Ffurflen Aseiad Risg Cyffredinol / General Risk Assessment Form

Adran/Department	Ysgolion	Rhif Aseu / Assessment No:			
Adain /Section	Enw'r Ysgol/yr uned	Dyddiad /Date:	14/09/2021		
Asesydd/Assessor:		Swydd/Position:			
Gweithgaredd / Proses Activity / Process		Nifer a Phobl mewn Perygl Number & Persons at Risk			
<p>O 20 Medi 2021 ymlaen, bydd y Canllawiau Gweithredol i ysgolion a lleoliadau yn dod i ben ac yn cael eu disodli gan y Fframwaith Penderfyniadau Fframwaith penderfyniadau rheoli heintiau COVID-19 lleol ar gyfer ysgolion o hydref 2021 LLYW.CYMRU. Bydd ysgolion Ceredigion yn anelu at drosglwyddo i'r fframwaith newydd hwn erbyn 13 Medi ar y cynharaf a hyd at 20 Medi.</p> <p>Bydd yr ysgolion yn ailagor i'r disgyblion o 3 Medi, gan ganiatáu cyfnod trosglwyddo o'r ffyrdd blaenorol o reoli risgiau COVID i'r ffyrdd mwy newydd o weithio yn unol â'r Fframwaith Penderfyniadau.</p> <p>Yn ddiweddar mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi barnu bod lefel y risg yn Gymedrol a byddai'n briodol cynnwys camau lliniaru Cymedrol o fewn yr aseiad risg hwn. Mae hyn yn agored i newid a bydd unrhyw newid yn cael ei drafod rhwng yr Awdurdod Lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Bwrdd Iechyd Lleol ac yn cael ei gadarnhau gan y Tîm Rheoli Achosion.</p> <p>Dylai'r staff hynny, y nodwyd fel rhan o Hunanasesiad y Gweithlu bod angen Atodiad B arnynt, gael y dogfennau hyn wedi eu hadolygu a'u monitro'n rheolaidd.</p> <p>Mae'r canllawiau ar gyfer mamau beichiog yn parhau'n berthnasol, a disgwylir iddynt weithio gartref o 28 wythnos ymlaen. Bydd hyn yn cael ei adolygu ar 31.10.2021.</p> <p>Bydd angen i ysgolion sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u cynlluniau diogelwch ac nad yw unrhyw newidiadau i drefn eu safle er mwyn cydymffurfio â gofynion Covid-19 na mesurau rheoli i liniaru risgiau croes halogi neu drosglwyddo'r haint yn cael effaith negyddol ar gynlluniau diogelwch.</p>					
			Gweithwyr Employees	Eraill Others	Disgyblion Pupils
		1	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
		2-5	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
		6-9	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10+	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>		
<input checked="" type="checkbox"/>	Gweithiwr / Employee	<input type="checkbox"/>	Gweithiwr unigol / Lone Worker		
<input type="checkbox"/>	Yn trin arian / Handles Money	<input checked="" type="checkbox"/>	Contractwr / Contractor		
<input type="checkbox"/>	Oriau <i>anghymdeithasol</i> Unsociable hours	<input checked="" type="checkbox"/>	Ymweld â safle / Visit Premises		
<input checked="" type="checkbox"/>	Delio â'r cyhoedd / Deal with the public	<input type="checkbox"/>	Staff ifanc sy'n <i>agored i niwed /</i> Young vulnerable staff		
<input type="checkbox"/>	Person Ifanc / Young Person	<input type="checkbox"/>	Cyhoedd/Client / Public / Client		
<input checked="" type="checkbox"/>	Disgybl Ysgol <i>Babanod /</i> Infant School pupil	<input checked="" type="checkbox"/>	Disgybl Ysgol <i>Gynradd /</i> Primary School Pupil		
<input checked="" type="checkbox"/>	Disgybl Ysgol <i>Uwchradd /</i> Secondary School Pupil				

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod y risgiau a ddaw yn sgil y coronafeirws (COVID-19), gan gynnwys yr amrywiolyn newydd a chyfraddau trosglwyddo'r amrywiolyn hwnnw i'n staff, ein disgyblion a'u teuluoedd. Mae mesurau rheoli er mwyn lleihau'r risg o ledu'r haint a throsglwyddo'r feirws yn cael eu darparu o fewn yr Asesiad Risg hwn.

Bydd Cyngor Sir Ceredigion County Council yn gwneud y canlynol

- sicrhau Iechyd, Diogelwch a Llesiant ein staff a'n disgyblion, cyn belled ag y mae hynny'n rhesymol ac yn ymarferol
- rhannu'r Asesiad Risg hwn a'i ganfyddiadau gyda chyflogwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr a rhieni ac ymgynghori ynghylch ei gynnwys
- parhau i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch

Perygl sy'n Ymwneud â'r Gweithgaredd / Proses
Hazard Involved In the Activity / Process

- Trosglwyddo COVID-19 o fewn cymuned yr ysgol/safle'r ysgol

Mesurau / Rheolaethau Diogelwch Presennol
Existing Safety Measures / Controls

Mesurau cyffredinol er mwyn rheoli diogelwch

Ni chaniateir i unrhyw un â symptomau sy'n cael eu cydnabod yn symptomau Covid (peswch diweddar parhaus, tymheredd neu brofiad diweddar o golli'r synnwyr o flasau a/neu arogl) ddod i safle'r ysgol.

Os gofynnwyd i rywun hunanynysu gan y gwasanaeth olrhain, rhaid iddynt aros gartref ac aros am gyfarwyddiadau ynglŷn â threfniadau profi ayb a rhoi gwybod i'w pennaeth.

Os bydd unrhyw aelodau o staff yn mynd yn sâl gyda symptomau yr amheuir eu bod yn symptomau Covid, yna rhaid iddynt roi gwybod i'w pennaeth yn y ffordd fwyaf diogel posibl a dychwelyd adref. Yna mae'n rhaid iddynt ffonio 119 neu ddilyn y ddolen ganlynol er mwyn gofyn am brawf PCR <https://www.gov.uk/get-coronavirus-test>

1. Mynediad a Chapasiti

Rhieni'n gollwng ac yn casglu eu plant

Dim ond am resymau angenrheidiol y dylai rhiant fynd i mewn i dir yr ysgol a hynny am gyn lleied o amser ag sydd yn angenrheidiol e.e i gasglu myfyriwr sy'n sâl. Os oes rheswm dilys gan rieni dros fynd i mewn i'r ysgol, yna bydd disgwyl iddynt wisgo masg. Nid oes yn rhaid i rieni wisgo masg y tu allan a dylid eu hatgoffa a'u hannog i beidio ag ymgynnull wrth gatiâu'r ysgol ac i wneud popeth o fewn eu gallu i leihau'r potensial o fod mewn cyswllt â'r haint ac i bobl gael eu heintio.

Llif y traffig

Mewn ysgolion mwy o faint/gyda mwy o ddisgyblion neu lle mae'r llif o bosibl wedi ei gyfyngu, efallai y bydd angen llif traffig unffordd a/neu barthau penodol, yn enwedig mewn ardaloedd cymunedol neu rhwng gwarsi e.e cynteddau/coridorau. Dylid nodi'r rhain gydag arwyddion, tâp ayb. Efallai y bydd rhai ysgolion yn dewis cadw at fynedfeydd/allanfeydd penodol er mwyn rheoli llif y traffig.

2. Gofod personol o fewn sefydliad yr ysgol

Parchu gofod personol pobl eraill

Nid yw hi bellach yn ofniad cyfreithiol i gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr; mae'n dal yn fesur rhesymol a phwysig i barchu gofod personol pobl eraill. Bydd hyn yn lleihau lledaeniad yr haint ac yn rhoi sicrwydd i'r sawl sy'n teimlo'n bryderus am ddychwelyd i'r ysgol a bod yng nghwmni llawer o bobl.

Grwpiau cyswllt

Mae'r rhain i barhau hyd at 13.09.2021 yn ystod y cyfnod trosglwyddo o'r Canllawiau Gweithredol i'r Fframwaith Penderfyniadau.

Ystafelloed Dosbarth

Dylai pob ysgol (uwchradd) gadw cynlluniau eistedd, gan y bydd hyn yn cynorthwyo, yn rhybuddio ac yn rhoi gwybodaeth pe bai achos positif. Ar ôl 13.09.2021, gall CA2 ac ysgolion uwchradd ddewis trefniadau eistedd mewn grwpiau os oes yn well ganddynt. Gall ystafelloedd dosbarth y Cyfnod Sylfaen barhau â threfniadau eistedd mewn grwpiau.

Ni fydd angen i staff na dysgwyr wisgo gorchudd wyneb yn yr ystafell ddosbarth, oni bai eu bod mewn cysylltiad agos ag unigolyn am gyfnod hir. Pe bai'n well gan unigolion wisgo gorchudd a/neu feisor er mwyn sicrwydd personol, yna fe'u hanogir i wneud hynny.

Amser cinio/egwyl

- Ni fydd angen parhau i ddefnyddio sgriniau gwahanu a sgriniau ar ben byrddau yn yr ardaloedd bwyta.
- Mewn egwyddor, nid yw bellach yn ofniad ffurfiol i osod disgyblion a staff mewn parthau. Fodd bynnag, mae'n rhesymol i ysgolion mwy grwpio dosbarthiadau mewn ardaloedd gwahanol y tu mewn a thu allan, er mwyn lleihau nifer y cysylltiadau yr effeithir arnynt a'r modd y bydd yn effeithio ar lanhau trylwyr pe bai achos positif o Covid-19 yn yr ysgol.
- Bydd y disgyblion a'r staff yn dal i gael eu hannog i ddod â'u poteli dŵr eu hunain i'w hail-lenwi yn ystod y dydd

Gwasanaethau/cynulltiadau ysgol gyfan

- Osgowch gael grwpiau mawr o staff a disgyblion yn ymgynnull yn yr un lle y tu mewn. O ran gwasanaethau, ystyriwch:
 - A yw'n bosibl cynnal gwasanaeth rhithiol?
 - Rhannu gwasanaethau yn wasanaethau ar gyfer un flwyddyn neu un cyfnod allweddol (yn dibynnu ar faint carfannau)
 - Os yw'r tywydd yn caniatáu, ystyriwch gynnal cynulltiadau mewn llefydd sydd y tu allan ond sydd dan orchudd

Toiledau

Os yw'n bosibl parhau i neilltuo toiledau i grwpiau penodol, yna dylai hyn barhau. Os nad yw hyn yn ymarferol, dylid lliniaru risgiau drwy sicrhau bod yn rhaid diheintio dwylo cyn mynd i mewn i'r toiledau a golchi dwylo cyn dod allan o'r toiledau.

Ystafelloedd staff

Er mwyn cynnal pellter corfforol i'r graddau mwyaf posibl, dylid darparu adnoddau priodol (e.e.tegell) er mwyn lleihau'r sefyllfoaedd lle ceir ymgynnull mewn ardaloedd penodol.

Mannau yn yr awyr agored

- Mae cynnal gweithgareddau dysgu a chwarae yn yr awyr agored yn dal yn fesur rheoli pwysig
- Defnyddiwch ganopiâu/pagodau sydd gennych yn barod ar gyfer gwersi y tu allan a gweithgareddau chwaraeon mewn tywydd garw

Ymweliadau addysgol (ymweliadau dydd ac ymweliadau preswyl)

- Ar hyn o bryd, gellir cynnal ymweliadau addysgol ar yr amod bod asesiadau risg manwl a phenodol wedi eu hysgrifennu. Gallai'r sefyllfa hon newid pe bai cynnydd yn y cyfraddau heintio yn lleol.
- Bydd yn rhaid anfon yr asesiadau risg hyn i'r cyfeiriad e-bost canlynol Mererid.Watson2@ceredigion.gov.uk er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo a'u llofnodi cyn y rhoddir caniatâd i barhau â'r ymweliadau.
- Yna bydd angen iddynt gael eu logio ar y system EVOLVE yn ôl yr angen – bydd hyfforddiant ar gael yn ystod mis Medi

Gweithgareddau chwaraeon (gan gynnwys pyllau nofio a chanolfannau hamdden)

- Mae gweithgareddau chwaraeon yn yr awyr agored yn weithgareddau risg isel a'r rhain ddylai fod yn opsiwn cyntaf
- Gofynion cludiant: Gan gynnwys diheintio dwy wrth ddod i mewn/fynd allan, a disgyblion 11 oed neu'n hŷn i ddefnyddio gorchuddion wyneb. Gofynnwch i'r darparwr cludiant am gael ei asesiad risg, er mwyn iddo gael ei gymeradwyo Healthandsafety@ceredigion.gov.uk
- Gofynnwch hefyd am asesiadau risg pyllau nofio sydd dan berchnogaeth breifat, er mwyn iddynt allu cael eu cymeradwyo Healthandsafety@ceredigion.gov.uk
- Bydd yn rhaid i ddisgyblion ysgol sydd o oed uwchradd wisgo masgiau mewn ystafelloedd newid, pyllau nofio a chanolfannau hamdden
- Rhaid i ffenestri fod ar agor yn ddigon llydan i ganiatáu newidiadau o ran yr aer, ond ni ddylai hyn effeithio ar faterion diogelu plant
- Ni ddylid rhannu poteli dŵr
- Mae'n rhaid bod diheintydd dwylo ar gael i ddisgyblion cyn ac ar ôl gweithgareddau
- Rhaid ystyried mynediad at doiledau gan gynnwys cyfleusterau golchi dwylo ac awyru
- Cyfyngwch ar niferoedd grwpiau sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dan do neu rhannwch i barthau
- Yn lle gadael i bob grŵp fynd i'r ystafelloedd newid yr un pryd, trefnwch fod hyn yn cael ei raddoli

Gweithgareddau chwaraeon rhwng ysgolion

Rhaid i bob digwyddiad gael ei asesiad risg ei hun sy'n adlewyrchu sefyllfa'r ysgol sy'n chwarae gartref a'r ysgol sy'n chwarae oddi cartref o ran eu statws o fewn y fframwaith ar adeg y gêm.

Dylid cynnwys yr ystyriaethau canlynol ymysg ystyriaeth eraill:

- y ddwy ysgol yn rhannu eu hasesiadau risg ei gilydd ar gyfer y gweithgaredd
- trefniadau teithio
- trefniadau'r cyfleusterau newid
- trefniadau cyfleusterau llesiant
- disgwyliadau o ran hylendid a glanhau

Ymwelwyr â'r safle

Staff cyflenwi: Argymhellir eu bod yn cynnal profion prawf llif unffordd yn rheolaidd (ddwywaith yr wythnos os ydynt yn cael eu cyflogi'n rheolaidd) a bydd yn rhaid lanlwytho'r canlyniadau ar wefan y

Llywodraeth: <https://www.gov.uk/report-covid19-result> a dylid anfon yr e-bost sy'n cadarnhau hynny at y pennaeth.

- **Contractwyr sy'n ymweld:** Rhaid iddynt gytuno ar amser a dyddiad i ymweld. Lle bo hynny'n bosibl, dylid trefnu ymweliadau dan do y tu allan i oriau ysgol. Bydd angen i'r contractwyr gofrestru eu presenoldeb drwy lofnodi a nodi eu henwau a'u manylion cyswllt a chadarnhau eu bod nhw ac aelodau eu haelwydydd yn rhydd rhag symptomau ac nad oes angen iddynt hunanynysu. Rhaid i gontractwyr sy'n gorfod mynd i mewn i'r ysgol wisgo gorchudd wyneb a diheintio eu dwylo wrth fynd i mewn i'r ysgol ac wrth ymadael.
- **Pobl broffesiynol ym maes iechyd a gweithwyr proffesiynol ategol ac aelodau eraill o staff y Cyngor sy'n ymweld:** Cânt ymweld ar amser a dyddiad y cytunwyd arnynt (oni bai ei fod yn fater y tybir ei fod yn argyfwng/yn fater brys) a bydd angen iddynt wisgo gorchudd wyneb (oni bai ei fod yn effeithio'n andwyol ar gyfathrebu), bydd yn rhaid iddynt ddiheintio eu dwylo wrth ddod i mewn ac wrth ymadael a chofrestru eu presenoldeb drwy lofnodi a nodi eu henwau a'u manylion cyswllt. Bydd gan yr ysgol leoliad penodol i gynnal cyfarfodydd gydag asiantaethau allanol a bydd asesiad risg wedi ei gynnal ar gyfer y lle hwnnw. Gellir defnyddio manau yn yr awyr agored hefyd os tybir bod hynny'n briodol.

Lle bo hynny'n bosibl, dylid parhau i gynnal cyfarfodydd yn rhithiol.

Clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol

Dylai clybiau prysur iawn gynnal parthau penodol neu rannu niferoedd rhwng grwpiau er mwyn osgoi gorlenwi

Nosweithiau rhieni/nosweithiau agored

- Penderfynwch a oes modd parhau i ddefnyddio 'cwmwl yr ysgol' fel opsiwn rhithiol. Os nad oes modd gwneud hynny:
- Cyflwynwch system apwyntiadau gydag amserau, manylion cyswllt ayb.
- Daliwch ati i ddefnyddio masgiau ac arwyddion i atgoffa rhieni sy'n ymweld bod angen iddynt ddiheintio eu dwylo wrth ddod i mewn ac wrth ymadael.

Cyngherddauysgol a gwyliau (dim ond pa fo lefelau risg yn isel)

- Bydd angen i bob digwyddiad gael asesiad risg unigol a dylai'r rhain gael eu cymeradwyo a'u llofnodi gan Healthandsafety@ceredigion.gov.uk
- A yw hi'n bosibl cynnig dyddiadau ychwanegol er mwyn lleihau'r niferoedd sy'n bresennol, ond eto'n parhau i ddarparu cyfleoedd teg i bobl fynychu'r digwyddiad?
- System archebu ar waith
- A ydy hi'n bosibl trefnu bod pobl yn mynychu'r digwyddiad yn ôl grwpiau blwyddyn?
- A oes modd defnyddio lleoliad gwahanol?
- Ystyriwch y ddarpariaeth o ran toiledau (glanhau ychwanegol, awyru)
- Nodwch y manau cyfyng o ran dod i mewn a mynd allan
- Os darperir lluniaeth, pa fesurau rheoli risg sydd ar waith? (Cynwysyddion untro, biniau, darparu bwyd/diod yn fewnol ayb.)

3. Trefniadau Rheoli Haint, Glanhau a Hylendid

Hylendid Anadlol:

'Ei Ddal. Ei Daflu. Ei Ddifa. Golchwch eich Dwylo' Mae angen arddangos canllawiau ac arwyddion sy'n atgoffa pawb os ydynt yn gorfod peswch neu disian, i wneud hynny i mewn i facyn papur, yna eu bod i daflu'r macyn papur ac yn syth wedyn, am o leiaf 20 eiliad, eu bod i olchi eu dwylo neu ddefnyddio diheintydd dwylo sy'n cynnwys alcohol. Bydd angen biniau â chaeaddon hefyd mewn manau cymunedol ac ystafelloedd dosbarth, er mwyn sicrhau bod digon o finiau o fewn cyrraedd.

Masgiau – Ysgolion Uwchradd

Bydd y rhain yn dal yn angenrheidiol ar gludiant ysgol ac mewn manau prysur megis ciwiau cinio neu os bydd rhywun mewn cysylltiad agos wrth gynorthwyo/weithio. Bydd yn rhaid eu gwisgo hefyd mewn ystafelloedd newid oherwydd bod pobl yn agos at ei gilydd yn y cyfleusterau hynny.

Masgiau – Oedolion

Dylai staff wisgo masg ar gludiant ysgol, mewn ardaloedd prysur neu os ydynt mewn cysylltiad agos wrth gynorthwyo/weithio. Dylid newid masgiau'n rheolaidd e.e. bob 2-4 awr (yn ddibynol ar lefel y gweithgaredd a grŵp oedran y plant sy'n cael y gefnogaeth), amser cinio neu pan fydd y masgiau'n llaith.

Gofynnir i ymwelwyr sy'n dod i mewn i adeiladau'r ysgol (contractwyr, gweithwyr CSC) wisgo gorchuddion wyneb yn adeilad yr ysgol.

Bydd angen i bobl broffesiynol ym meysydd iechyd/gofal cymdeithasol wisgo gorchudd wyneb wrth deithio drwy'r ysgol ond nid oes yn rhaid iddynt wisgo gorchudd wyneb wrth wneud gwaith os yw'n atal cyfathrebu gyda dysgwyr bregus/mewn perygl neu staff.

Feisorau

Efallai y bydd rhai aelodau o staff yn dewis gwisgo feisor, ond rhaid nodi nad yw'r rhain yn addas i'w gwisgo yn lle masgiau, gan nad ydynt yn eich amddiffyn yn yr un modd rhag mewnanadlu gronynnau aerosol. Diben y feisor yw amddiffyn y sawl sy'n ei wisgo rhag diferion aerosol mawr a diferion mân sy'n cael eu chwistrellu drwy'r aer.

Hylendid Dwylo

Rhaid i gyfleusterau golchi dwylo gynnwys sebon hylif a thywelion papur tafladwy. Rhaid arddangos arwyddion gerllaw basnau ymolchi a gorsafoedd diheintio sy'n nodi sut i olchi dwylo'n gywir. Mae'n rhaid atgoffa pawb pa mor bwysig yw hi i olchi dwylo yn y dull cywir, yn aml, drwy gydol y diwrnod ysgol er mwyn lleihau'r perygl o haint.

Glanhau

- Rhaid cynnal safonau glanhau uchel drwy'r ysgol er mwyn lleihau'r risg o groes heintio/groes halogi.
- Bydd toiledau yn dal i gael eu glanhau, gan ddilyn y drefn lanhau arferol a oedd yn bodoli cyn cyfnod Covid-19. Ystyriwch a allai disgyblion oed uwchradd ddefnyddio weips diheintio a ddarperir i sychu cyfleusterau wedi iddynt eu defnyddio.
- Dylid parhau i lanhau cyfarpar/teganau/adnoddau sydd yn cael eu rhannu rhwng gwahanol grwpiau cyswllt/carfannau o blant.
- Dylid parhau i lanhau manau sy'n cael eu defnyddio'n gyson yn ôl yr angen, drwy gydol y dydd e.e. bob tro y ceir newid o ran y sawl sy'n eu defnyddio. Bydd disgyblion oed uwchradd yn gallu dilyn cyfarwyddiadau a chanllawiau i wneud hyn yn ôl y gofyn. Ymhlith y manau a ystyrir yn fannau a ddefnyddir yn aml mae'r canlynol (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i'r rhestr ganlynol):
 - byrddau gwaith
 - cadeiriau
 - switsys golau
 - cyfarpar cyfrifiadurol

Awyru

Mae'r elfen hon yn parhau yn un o'r mesurau rheoli pwysicaf er mwyn lleihau trosglwyddiad y feirws. Gwnewch yn siŵr bod ffenestri ar agor (yn y gaeaf, dim ond agor y ffenestri ryw ychydig sydd ei angen yn ystod yr amser y mae'r dosbarth yn yr ystafell er mwyn awyru'n ddigonol). Agorwch y ffenestri a'r drysau led y pen rhwng gwersi/carfannau er mwyn sicrhau newidiadau llawn o ran awyr iach.

- Ni ddylid defnyddio systemau ailgylchu aer mewnol ar hyn o bryd.

- Oherwydd bod awyr iach yn gwasgaru gronynnau'r feirws, mae gweithgareddau, digwyddiadau a gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored yn llai o risg na gweithgareddau y tu mewn.

Hunanynysu

Mae'r sawl sydd dan 18 ac oedolion sydd wedi cael y ddau frechiad wedi'u heithrio rhag hunanynysu (mae hyn yn ddilys 14 diwrnod ar ôl cael y cwrs llawn). Bydd Profi, Orlhain, Diogelu yn gofyn i bob cyswllt gynnal prawf PCR ar ddiwrnodau 2 ac 8. Os bernir bod unigolion yn gyswllt agos, byddant yn cael eu hannog i osgoi pobl fregus.

Gall fod achlysuron pan fo disgyblion Blwyddyn 13 sydd yn 18 oed ond heb dderbyn y ddau frechiad yn gorfod hunanynysu. Anogir disgyblion Blwyddyn 13 sy'n 18 oed i rannu eu statws brechu gyda'r ysgol.

Anogir staff i ddiweddarau eu statws brechu ar system hunanwasanaeth Ceri. Fodd bynnag, nid oes rheidrwydd ar unigolion i rannu data sy'n ymwneud ag iechyd personol.

Bellach, nid oes yn rhaid i unigolion hunanynysu os oes aelod o'u haelwyd yn symptomatig a/neu wedi derbyn prawf PCR positif.

- Gofynnir i oedolion sy'n aelodau o aelwyd lle mae achosion positif o Covid i roi gwybod i'r Pennaeth a chymryd rhagofalon ychwanegol megis gwisgo masg a chadw pellter corfforol.
- Mae'n bosibl y gofynnir i oedolion sy'n aelodau o aelwyd lle mae achosion positif o Covid ac sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion meddygol cymhleth i beidio â dod i'r gwaith hyd nes y gofynnir am fwy o wybodaeth gan weithwyr iechyd.

Positif a symptomatig

Rhaid i'r unigolion hyn hunanynysu am 10 diwrnod beth bynnag fo'u statws brechu. Dylid anfon hysbysiad dyddiol i'r gwasanaethau ysgolion drwy SchoolCovidSymptoms@ceredigion.gov.uk i roi gwybod am unrhyw staff neu ddisgyblion sydd wedi derbyn canlyniad positif.

Ni chaiff pobl symptomatig sydd wedi cael prawf PCR negyddol fynychu os oes ganddynt wres – er mwyn iddynt fynychu'r ysgol rhaid iddynt gael prawf PCR negyddol a thymheredd normal (37.8° C) heb ei reoli gan feddyginiaeth am 48 awr.

Profion Llif Unffordd (LFT)

Er nad yw hyn yn orfodol mewn ysgolion, mae'n dal i gael ei ystyried yn fesur rheoli pwysig yn y broses o adnabod haint Covid-19 posibl mewn pobl nad oes ganddynt symptomau. Ni ddisgwylir i bobl sydd wedi eu heintio â Covid-19 gynnal profion LFT am 90 diwrnod ar ôl iddynt dderbyn eu prawf PCR positif.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn dal i ofyn i staff a disgyblion ysgolion uwchradd barhau i gynnal hunanbrofion llif unffordd (LFD) ddwywaith yr wythnos.

Os bydd statws unrhyw ysgol yn dwysáu i fod yn statws risg 'uchel' neu 'uchel iawn', mae'n bosibl y bydd y tîm Rheoli Achosion dan gyfarwyddyd Profi, Orlhain, Diogelu ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gofyn am drefniant mwy ffurfiol ar gyfer profion LFT i staff a dysgwyr ysgolion uwchradd.

- Dylai staff a disgyblion sydd yn cymryd rhan yn y rhaglen LFT hunanbrofi y noson cyn mynychu'r ysgol ar ddechrau'r tymor, cyn dychwelyd at eu hamserlen brofi arferol ddwywaith yr wythnos.
- Bydd contractwyr sy'n ymweld â'r ysgol yn parhau i gadarnhau iddynt gael prawf negyddol o fewn 24 awr (gallent ddangos neu anfon yr e-bost sydd ganddynt yn cadarnhau hynny)
- Bydd angen i unrhyw aelod o staff neu ddysgwyr mewn ysgol uwchradd sydd wedi eu cadarnhau yn gyswllt i achos positif gael prawf LFT neu PCR ar ddiwrnodau 2 ac 8.

- Bydd angen i staff peripatetig, staff ymgynghorol a gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n rheolaidd rhwng ysgolion gynnal profion LFT ddwywaith yr wythnos.
- Ni fyddwch bellach yn adrodd am ganlyniadau profion LFT drwy lenwi ffurflen ar wefan y Sir, ond byddwch yn adrodd yn unigorchol i <https://www.gov.uk/report-covid19-result>. Rhaid adrodd am bob canlyniad (positif, negyddol neu amhendant) yn y ffordd hon. Bydd neges destun ac e-bost yn cadarnhau hyn yn cael eu hanfon at yr unigolyn. Gellir anfon yr e-bost hwn ymlaen at y pennaeth yn cadarnhau prawf negyddol neu er mwyn gwneud cais am brawf PCR llawn drwy fynd i <https://www.gov.uk/get-coronavirus-test>
- Os dymunwch, gallwch wneud cais i gael dogfen ganllaw ar ffurf lluniau gyda dolenni i fideo canllaw a safle adrodd.

Ystafelloedd ynysu

- Bydd ystafelloedd ynysu yn parhau mewn ysgolion. Bydd angen i'r rhain gynnwys cyfarpar diogelu personol (PPE) (masgiau meddygol sy'n gwrthsefyll hylif, menig a ffedogau tafladwy a feisorau tafladwy). Bydd angen glanhau'r ystafelloedd hyn rhwng yr adegau y cânt eu defnyddio, gan ddefnyddio diheintydd firwsleiddiol neu lanhawyr sy'n cynnwys Clorit.

4. Rolau a Chyfrifoldebau

Bydd yr ysgolion ynghyd â'r Awdurdod Addysg Lleol yn sicrhau bod digon o staff/adnoddau er mwyn cynnal y canlynol:

- Diogelwch yr adeilad a'r sawl sydd yn yr adeilad
- Glanweithdra'r adeilad ac yn cynnal archwiliadau angenrheidiol o'r deunyddiau traul sydd eu hangen er mwyn cynnal safonau hylendid uchel (gan gynnwys cyflenwi'r deunyddiau hyn).

Bydd ysgolion yn sicrhau bod y canlynol ar gael:

- Nifer digonol o staff sydd wedi eu hyfforddi i ddarparu Cymorth Cyntaf Brys
- Nifer digonol o staff a fydd yn galluogi'r adeilad i gael ei wacáu'n ddiogel pe bai achos brys. Dylai carfannau/grwpiau cyswllt osgoi cymysgu yn y man ymgynnull tân lle bo hynny'n berthnasol

Y Risg(iau) Gweddilliol (Ar ôl mesurau rheoli) / The Residual Risk(s) (After control measures)

Os nad oes rhai, ysgrifennwch "Rheolaethau yn ddigonol" isod. Os oes risgiau'n dal i fodoli, nodwch isod a graddiwch y risg(iau) gweddilliol.

If there are none, write "Controls adequate" below. If risks still exist, detail below and rate the residual risk(s)

		Tebygolrwydd Likelihood	x	Difrifoldeb Severity	=	Graddfa Rating
I'w gwblhau gan yr ysgol ac yna i'w adolygu gan y Tim Iechyd a Diogelwch			x		=	
			x		=	
			x		=	
			x		=	
Tebygolrwydd Likelihood		Difrifoldeb / Severity		Graddfa / Risk Rating		
1	Prin Rare	1	Dibwys Insignificant	1-5	Y risg leiaf – Cynnal mesurau Minimal risk – Maintain measures	
2	Annhebygol Unlikely	2	Bach Minor	6-10	Risg isel – Adolygu risgiau Low risk – Review risks	

3	<i>Posibl</i> Possible	3	<i>Cymedrol</i> Moderate	11-15	<i>Risg gymedrol – Rheolaethau ychwanegol mewn 12 mis</i> Moderate risk – Additional controls in 12 months
4	<i>Tebygol</i> Likely	4	<i>O bwys</i> Major	16-25	<i>Risg Uchel – Gweithredu rheolaeth ychwanegol ar unwaith</i> High Risk – Additional control implemented immediately
5	<i>Bron yn sicr</i> Almost certain	5	<i>Trychinebus</i> Catastrophic		

Gweithredu rheolaethau a monitro / Implementation of controls and monitoring

Mae angen rheolaethau ychwanegol i leihau risg(iau) islaw graddfa risg o 10 /

Additional controls required to reduce risk(s) below risk rating of 10

Mae'r Tîm Rheoli Achosion yn cadw'r cyfrifoldeb o adolygu'r mesurau rheoli mewn ymateb i ddwysáu sefyllfa'r ysgol i 'Uchel' neu 'Uchel lawn' lle bo angen.

Yn ddibynol ar lefelau trosglwyddo yn y cymunedau a'r effaith a gaiff hynny ar ysgolion cyfagos, efallai y bydd sefyllfa ysgol unigol yn newid a bydd angen adolygu asesiad risg yr ysgol unigol i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Cytunwyd ar reolaethau ychwanegol Ie / Na (Os Ie, manylwch ar y Camau i'w cymryd) /

Additional controls agreed Yes / No (If Yes, detail the Action to be taken)

<i>Dyddiad targed ar gyfer gweithredu</i> Target date for implementation	<i>Llofnod – Rheolwr Llinell Cyfrifol / Pennaeth Cyfrifol</i> Signature – Responsible Line Manager / Head Teacher
Cliciwch neu daro yma i deipio dyddiad.	

Adolygiad asesu / Assessment review

<i>Dyddiad gweithredu</i> Date implemented:		<i>Rheolaethau yn Effeithiol</i> Controls Effective	<i>Ie / Na</i> Yes / No
<i>Sylwadau / Comments:</i>			
<i>Dyddiad targed ar gyfer gweithredu</i> Target date for implementation	<i>Llofnod – Rheolwr Llinell Cyfrifol / Pennaeth Cyfrifol</i> Signature – Responsible Line Manager / Head Teacher		
Cliciwch neu daro yma i deipio dyddiad.			